# YHA yng Nghymru

## Ein strategaeth i gynnig antur am y tro cyntaf ac am oes i bobl a chymunedau yng Nghymru

2022 - 2025



**Llun**
Bwthyn Idwal yr YHA

# Ni yw YHA

Rydym yn credu yng ngrym teithio ac antur. I gysylltu pobl â'i gilydd, â natur, yr awyr agored, diwylliant a threftadaeth.

Mae hostela yn gwneud teithio ac antur yn hygyrch i bawb, ym mhobman. Mae'r YHA yn rhedeg safleoedd ledled Cymru a Lloegr — cymuned o fannau a rennir sy'n agored i bawb ac er budd pawb.

Rydym yn cynnig anturiaethau cynhwysol, mewn adeiladau hynod, mewn lleoedd rhyfeddol.

Rydym yn fenter gymdeithasol flaenllaw ac yn fudiad 90 oed. Elusen ar genhadaeth i gyfoethogi bywydau pawb, ond yn enwedig pobl ifanc, a gwella iechyd corfforol, lles meddyliol a sgiliau bywyd drwy'r profiadau a grëwn.

**Ni yw YHA.**

**Oherwydd mae ble yr ewch chi yn newid pwy fyddwch chi.**

# YHA yng Nghymru



# Rhagair

Mae gan Gymru ei hanes, treftadaeth, iaith, tirweddau, cymunedau a Llywodraeth unigryw ei hun. Er mwyn inni gefnogi pobl a chymunedau yng Nghymru'n well, mae angen inni gydnabod hyn mewn ffordd nad ydym wedi gwneud yn y gorffennol. Mae'r ddogfen hon yn nodi ein strategaeth ar gyfer yr YHA yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf. Mae'n dangos ymagwedd sydd wedi'i theilwra i'r wlad a'i chryfderau, heriau a blaenoriaethau penodol.

Yn gynnar yn 2020, cyhoeddasom ein strategaeth 10-mlynedd ar gyfer yr elusen gyfan: *Antur. Am y tro cyntaf ac am oes*. Gan adeiladu ar ddegawd o foderneiddio, roedd yn nodi ein huchelgeisiau i gyrraedd mwy o bobl a chynyddu ein heffaith.

Edrychasom i'r gorffennol wrth greu'r strategaeth. I ddechrau ein sefydliad, i'r uchelgais a'r ymrwymiad i wella mynediad i gefn gwlad a chynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n hyrwyddo iechyd a llesiant. Naw deg o flynyddoedd yn ôl, gwireddwyd yr uchelgeisiau hynny yng ngogledd Cymru pan agorodd yr hosteli ieuenctid cyntaf ym Mhrydain.

Mae dwy flynedd ers inni lansio ein strategaeth; dwy o'r blynyddoedd mwyaf heriol yn hanes yr elusen – oherwydd y pandemig a'r anawsterau newydd sy'n dod i'r amlwg ac sy'n wynebu'r sector a chymdeithas. Er nad oeddem erioed wedi dychmygu y byddem yn rhoi'r strategaeth ar waith yn y cyd-destun hwn yn ystod ei blynyddoedd cyntaf, mae wedi'i gwreiddio yn ein gwerthoedd craidd, ac mae wedi parhau i arwain ein penderfyniadau ar hyd y cyfnod hwn.

Wrth inni gymryd camau ar y ffordd at adferiad, mae gennym gyfraniad unigryw i'w wneud i gymdeithas – wrth ailgysylltu pobl â'i gilydd, â natur, yr awyr agored, diwylliant a threftadaeth. Mae gennym alluoedd profedig o ran gwella iechyd, llesiant a sgiliau bywyd – i blant a phobl ifanc yn enwedig. Ond mae ein tystiolaeth o effaith yn dangos bod lle gennym i dyfu a mwy y gallwn ei gyflawni yng Nghymru.

Er mwyn dechrau mynd i'r afael â hyn, yn ystod gwanwyn a haf 2022, buom yn holi sut y gallai'r YHA gefnogi pobl a chymunedau yng Nghymru'n well. Mae'r farn a'r adborth a gawsom yn ystod yr ymgynghoriad hwnnw wedi helpu i lunio ein blaenoriaethau a'n haddewidion. Diolch am ymgysylltu mor hael ac mor ystyrlon â ni. Fel cymdeithas, mae pob un ohonom yn ymdopi â heriau ychwanegol – costau ynni, llai o adnoddau, prinder llafur ac argyfwng costau byw, a dweud y lleiaf. Bydd gweithio mewn partneriaeth i ffocysu adnoddau ar flaenoriaethau cyffredin yn hollbwysig er mwyn sicrhau llwyddiant. Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi i gyflawni strategaeth addas i'r diben, er mwyn bodloni cyd-destunau polisi yng Nghymru fel gweithredu'r Cwricwlwm newydd ac – yn bwysicaf oll – i bobl Cymru.




**Margaret Hart**

Cadeirydd

# Amcan elusennol


Helpu pawb, yn enwedig pobl ifanc ag incwm cyfyngedig, i gael mwy o wybodaeth am gefn gwlad a'i hoffi a gofalu amdano'n fwy, a gwerthfawrogi gwerthoedd diwylliannol trefi a dinasoedd yn fwy, yn enwedig drwy ddarparu hosteli ieuenctid neu lety arall iddynt yn ystod eu teithiau, ac felly hybu eu hiechyd, eu hamdden a'u haddysg.



# Gweledigaeth

**Gall pawb fwynhau buddion antur, am y tro cyntaf ac am oes.**

Erbyn 2030, gall pob plentyn aros oddi cartref, teithio, profi antur a'r awyr agored, natur, diwylliant a threftadaeth. Bydd yr YHA yn gweithio gydag eraill i roi terfyn ar yr anghydraddoldeb sy'n golygu nad yw rhai plant erioed wedi bod i draeth, ymweld ag amgueddfa na rholio i lawr bryn.



# Cenhadaeth

Cyfoethogi bywydau pawb, yn enwedig pobl ifanc, drwy ddarparu arosiadau gwych mewn hosteli a phrofiadau sy'n gwella iechyd corfforol, lles meddyliol a sgiliau bywyd.

# Gwella ein heffaith yng Nghymru

Ein huchelgais yw cyflawni'r targedau blynyddol canlynol erbyn 2025:

- **1 filiwn** o bobl o bob oed yn aros gyda'r YHA.
- Sicrhau bod o leiaf hanner o'r rhain — **500,000** — yn blant a phobl ifanc.
- A bod o leiaf **50,000** o'r plant a phobl ifanc hyn yn rhai â'r bywydau mwyaf heriol.
- Ac yn olaf, bod yn sicr bod **all means all** — bod y rhai sy'n aros gyda ni yn cael budd o'n darpariaeth a'n cymorth, ein cyflogeion a'n gwirfoddolwyr, yn adlewyrchu demograffeg Cymru a Lloegr.

O fewn y targedau cyffredinol hyn, hoffem gyflawni targedau penodol i Gymru:

- Cynyddu'r gyfran o breswylwyr Cymru sy'n defnyddio hosteli YHA.
- Cynyddu'r gyfran o bobl ifanc yng Nghymru sy'n cael profiad dysgu preswyl yng Nghymru trwy eu hysgol neu grŵp ieuenctid.
- Cynyddu'r gyfran o bobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn amgylchiadau heriol yng Nghymru sy'n cael arhosiad â chymorth gan yr YHA.
- Cynyddu'r gyfran o bobl ifanc sy'n cyrchu'r amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli, hyfforddiant, lleoliadau gwaith a swyddi y gallwn ni eu cynnig yng Nghymru.

# Crynodeb o'r ymgynghoriad

Dechreuasom y drafodaeth ynghylch ein strategaeth i'r YHA yng Nghymru ym mis Mai 2022.

Dosbarthwyd dogfen drafod gennym i filoedd o unigolion trwy ein cyfathrebiadau â'n haelodau a'n cefnogwyr, rhwydweithiau rhanddeiliaid a gyda help ein sefydliadau partner.

Diolch i bawb a fu'n helpu i ledu'r gair, gan gynnwys swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, tîm Croeso Cymru, Cynghrair Awyr Agored Cymru a gwasanaethau gwirfoddol a chymunedol ledled Cymru.

## Yr ymgynghoriad mewn rhifau

Cawsom fwy na 300 o ymatebion a siaradom â mwy na 30 o gynrychiolwyr sefydliadau rhanddeiliaid allweddol.

Clywsom gan aelodau, ymwelwyr, staff, gwirfoddolwyr, partneriaid a rhoddwyr.

Clywsom gan bobl newydd. Nid oedd gan fwy na 5% o'r ymatebwyr berthynas bresennol â'r YHA.

## Canlyniadau

Roedd **94%**

yn cytuno neu'n cytuno'n rhannol â'n blaenoriaethau

Gofynasom a oeddech yn cytuno â'r meysydd lle gall yr YHA gynorthwyo pobl ifanc orau. Mae'r gymeradwyaeth helaeth i'r hyn a gynlluniwyd gennym yn galonogol iawn, ac yn dangos consensws ymhlith ein cefnogwyr tuag at y cyd-nodau.

Roedd **68%**

yn cytuno bod ein blaenoriaethau'n cynnwys y materion pwysicaf

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno ein bod ni'n canolbwyntio ar y meysydd iawn. Awgrymodd rhai ohonynt y dylem gynnwys materion eraill. Roedd llawer o'r awgrymiadau hyn, yn ein barn ni, yn ymhlyg yn y blaenoriaethau a restrwyd gennym. Ond roedd angen inni wneud hyn yn glir. Felly rydym wedi ehangu ein disgrifiadau i wneud yn eglur yr holl faterion rydym yn ceisio mynd i'r afael â nhw yn ein blaenoriaethau ar gyfer yr YHA yng Nghymru.

# Yr hyn sydd fwyaf pwysig

Ein blaenoriaethau wedi'u rhestru yn ôl trefn pwysigrwydd.

Gofynasom pa flaenoriaethau oedd y rhai pwysicaf. Mae canlyniadau ein harolwg yn dangos safbwyntiau gwahanol ac nid oedd unrhyw geffylau blaen amlwg yn y drefn. Fodd bynnag, mae'r blaenoriaethau yn y tri safle uchaf yn dangos lle y byddwn efallai'n canolbwyntio ein sylw a'n hadnoddau.

## 1

Gweithio gydag ysgolion (cynradd ac uwchradd) i ddarparu cyrsiau preswyl i bobl ifanc.

## 2

Gweithio gydag addysgwyr darpariaeth amgen (y tu allan i ysgolion cynradd ac uwchradd) i ddarparu cyrsiau preswyl i bobl ifanc.

## 3

Datblygu cyfleoedd o ran prentisiaethau, gwirfoddoli, hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ifanc.

# Eich adborth

Gofynasom i chi ddweud wrthym beth mae'r YHA yn ei wneud yn dda, ddim cystal, a sut y gallem ni wella.

Cawsom adborth cadarnhaol yn ogystal ag awgrymiadau mwy heriol. Roedd rhai o'r sylwadau'n cyfeirio at yr YHA yng Nghymru, ac eraill yn ymwneud â'r rhwydwaith cyfan.

Beth roeddech chi'n ei hoffi amdanom:

- ✓ staff
- ✓ lleoliadau
- ✓ gofodau cymdeithasol a rennir
- ✓ cyfleusterau hunanarlwyo
- ✓ bod yn rhan o fudiad
- ✓ diben cymdeithasol cryf
- ✓ ethos â chydnabyddiaeth genedlaethol

Beth hoffech chi i ni ei wella:

- ystyriaeth o aelodau hŷn cymaint â phobl ifanc
- diwallu anghenion teithwyr unigol cymaint â grwpiau
- cynnal fforddiadwyedd yn wyneb costau a heriau cynyddol
- Cynyddu arferion cynaliadwy ac annog teithio gwyrdd
- mwy o wybodaeth am newidiadau i'r rhwydwaith hosteli
- dathlu'r hyn sy'n unigryw a lleol, gan gynnal safonau cenedlaethol

# Gwella'r YHA yng Nghymru

Cododd y themâu canlynol yn gyson mewn sylwadau am yr YHA yng Nghymru yn benodol:

## Hunaniaeth Gymraeg

Roedd y cyfranwyr eisiau'n gweld ni yn gwella'r ymdeimlad o hunaniaeth Gymraeg ledled ein rhwydwaith o hosteli yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys, er enghraifft, darluniau, bwyd a diod.

## Yr iaith Gymraeg

Mae pobl eisiau clywed a gweld mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn ein hosteli ac mewn cyfathrebiadau. Roedd rhai yn pwysleisio pwysigrwydd cael hyfforddwyr gweithgareddau Cymraeg eu hiaith.

## Mwy o hosteli yng Nghymru

Yn syml, roedd rhai eisiau mwy o hosteli yng Nghymru a rhoesant nifer o gynigion. Cawsom syniadau am leoedd llai adnabyddus, i ffwrdd o'r mannau sy'n boblogaidd gyda thwristiaid.

# Sylwadau cyffredinol ar ein hymagwedd strategol

## Cwmpas

Roedd rhai pobl yn cydnabod bod ein blaenoriaethau arfaethedig yn eithaf pellgyrhaeddol, ac yn dweud y byddai'n well ganddynt ein bod ni'n gwneud nifer fach o bethau yn dda.

## Mynediad a chynhwysiant

Ar sail rhai o'r ymatebion a gafwyd ynghylch rôl yr YHA yn y gwaith o helpu pawb i gael mynediad i deithio ac antur, hoffem ailddatgan ein datganiad sefyllfa ar degwch, amrywiaeth a chynhwysiant. I weld ein datganiad llawn, ewch i yha.org.uk/inclusion-diversity-policy.

Mae hanes 90 o flynyddoedd yr YHA wedi'i wreiddio mewn mynediad – i natur, yr awyr agored, diwylliant, treftadaeth a theithio. Nid yw'r mynediad i'r asedau cyhoeddus hyn yn deg.

Mae'r YHA yn elusen fawr sydd â brand a phlatfform pwerus. Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau i gefnogi tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob agwedd ar ein gwaith.

Fel arweinydd yn y sectorau rydym yn gweithio ynddynt, byddwn yn helaethu negeseuon aelodau, defnyddwyr a grwpiau cymunedol partner amrywiol.

Byddwn yn herio ein hunain, llywodraethau, partneriaid elusennol a'n cymunedau. Byddwn yn modelu arferion da. Byddwn yn onest.

## Yr amgylchedd a chynaliadwyedd

Diolch i'r rhai ohonoch a bwysleisiodd bwysigrwydd hyrwyddo teithio cynaliadwy a chyfrifoldeb amgylcheddol. Mae pennu'r YHA yn sefydliad sy'n ymwybodol yn amgylcheddol ac archwilio sut y gallwn ni leihau ein heffaith amgylcheddol yn mynd i galon ein hamcanion elusennol. Rydym wedi cyhoeddi datganiad o fwriad o ran cynaliadwyedd a chyrraedd sero net yn ddiweddar. Gallwch ei ddarllen yma yha.org.uk/environment-policy.

Bydd ein strategaeth amgylcheddol ehangach yn datblygu cynllun clir sy'n cynnwys popeth o'r ffordd y defnyddiwn ynni ac adnoddau i sut yr ydym yn annog ein gwesteion i ymddwyn yn gynaliadwy. Rhan fawr o hyn fydd hyrwyddo teithio llesol trwy bartneriaethau. Byddwn yn gwella'r ffordd yr ydym yn rhoi gwybodaeth a chyfeirio at yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi cynlluniau teithio cynaliadwy a llesol i'n hosteli ledled Cymru a Lloegr.

## Gweithio mewn partneriaeth

Roedd llawer o bobl yn cytuno y dylai'r YHA barhau i edrych ar bartneriaethau a gweithio cydweithredol. Roedd yn galonogol inni weld cynifer o'n sefydliadau partner presennol yn cael eu cydnabod. O ganlyniad i'r broses ymgynghori, rydym wedi rhoi cychwyn ar drafodaethau gyda phartneriaid newydd diolch i'ch awgrymiadau chi.

Grwpiau cadetiaid
Twristiaeth
Senedd Ieuenctid
Croeso Cymru
Sefydliadau bywyd gwyllt
CADW
Girlguiding UK
Beicio
Cynghorau Lleol
Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru
Bythynnod cyntefig yn y mynyddoedd
RSPB
Cycling UK
Darparwyr gweithgareddau awyr agored
Ysguboriau gwersylla
Coed Cadw
Grwpiau cerdded a rhedeg
British Pilgrimage Trust
Dug Caeredin
Lleol
Awdurdodau Lleol
Elusennau plant
Grwpiau ieuenctid
Cymdeithasol
Ysgolion
Grwpiau cymunedol mewn ardaloedd cymdeithasol amrywiol
Cymuned
Lletygarwch
Elusennau
Gwasanaethau Ieuenctid Awdurdodau Lleol
Llywdoraeth Cymru
Ramblers
Addysgol
Scouts
Ymddiriedolaethau Natur
Cyrff chwaraeon
AdventureSmart.uk
Cerdded
Parciau Genedlaethol
Cymdeithasau awyr agored
Cadwraeth
Y Comisiwn Coedwigaeth
Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Ffermwyr
Siopau coffi
Gwersylla gwyllt
Grwpiau awyr agored BAME
Y Cyngor Astudiaethau Maes
BMC
Sustrans
Ymddiriedolaeth Taith Cambria
Trafnidiaeth
Darparwyr trafnidiaeth
Ieuenctid
Aseswyr gwobr Dug Caeredin lleol

Diolch i bawb a gymerodd yr amser i ymateb, am eich cyfraniadau ac am barhau i gefnogi a herio'r YHA.

Mae eich adborth wedi llywio'r gwaith o bennu pa flaenoriaethau strategol sy'n fwyaf perthnasol yng Nghymru a'r addewidion yr ydym yn eu gwneud o ganlyniad sy'n dod o danynt.

# Ein blaenoriaethau strategol

## Blaenoriaethau effaith

### 1

Ein prif flaenoriaeth yw sicrhau bod popeth yn golygu popeth, cynyddu maint a hyd a lled ein cyrhaeddiad a sicrhau bod yr YHA i bawb. **Byddwn yn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a mynediad teg** gan ganolbwyntio'n arbennig ar bobl ifanc dan 26 oed a thrwy fynd ati i dargedu ein hymdrechion ar y rhai sydd â bywydau heriol.

### 2

**Byddwn yn cynyddu mynediad at arosiadau oddi cartref ac yn gwella cysylltiadau â natur, yr awyr agored, treftadaeth a diwylliant** – gan gydnabod bod ein rhwydwaith hosteli yn cynnig cyfle unigryw i sicrhau bod y pethau hyn i'r mwyafrif ac nid y lleiafrif.

### 3

**Byddwn yn gwella llesiant corfforol a meddyliol** trwy ddarparu gweithgareddau a rhaglenni a thrwy gefnogi pobl i weithredu drostynt eu hunain gan ddefnyddio ein hosteli fel canolfan – trwy arosiadau dros nos ac fel rhan o ymweliadau dydd.

### 4

**Byddwn yn datblygu sgiliau bywyd a chyflogadwyedd** trwy ddatblygu Campws yr YHA a Chwricwlwm yr YHA – i'n staff, gwirfoddolwyr a'r bobl ifanc rydym yn gweithio gyda nhw.

### 5

**Byddwn yn cyfrannu at gydlyniant cymdeithasol**. Byddwn yn annog gwahanol sectorau o'r gymuned sy'n ymweld â ni – dros nos ac am ymweliadau dydd – i ddysgu oddi wrth ei gilydd a gyda'i gilydd. Rydym yn rhan o'r economi rhannu. Byddwn yn gwneud y defnydd gorau o'n lleoedd a'n mannau, a'n rhaglen gweithgareddau, i greu cysylltiadau cryfach â chymunedau lleol.

# Galluogi blaenoriaethau

## 6

**Cynnal rhwydwaith hyfyw o hosteli o ansawdd da** – lleoedd a mannau – sy'n cydweddu â'n huchelgeisiau strategol.

## 7

**Cyflawni yn unol â fframwaith o feincnodau o safon y diwydiant** sy'n defnyddio modelau o'r ansawdd gorau ar draws elusennau, mentrau cymdeithasol, lletygarwch a gwaith gyda phobl ifanc. Gweithio gyda thryloywder a gan ganolbwyntio ar brofiadau ein defnyddwyr – gan ragori mewn gwasanaethau digidol ac all-lein fel ei gilydd.

## 8

Cefnogi twf trwy barhau i **gynhyrchu gwarged arian parod blynyddol** sy'n cefnogi ein bwriad strategol, **wedi'i seilio ar egwyddorion menter gymdeithasol**.

## 9

Cydnabod bod y risgiau i'r amgylchedd ac i'r byd a'i boblogaeth yn fygythiad gwirioneddol ac uniongyrchol trwy gysylltu pobl â natur. Byddwn yn gosod esiampl gryf – yn y ffordd y byddwn yn defnyddio ein hasedau a thrwy ein gwaith gyda phartneriaid **byddwn yn helpu i wella'r amgylchedd**.

## 10

**Creu cefnogaeth i achos hostela** – gan ddefnyddio ein hanes o 90 o flynyddoedd i sefydlu pwysigrwydd hostela i bawb heddiw: gan dyfu nifer yr aelodau ond hefyd faint o aelodau sy'n weithgar gyda'r YHA; ac arwain y mudiad i'r rhai sy'n cefnogi hostela fel ffordd o gyrraedd teithio fforddiadwy ac antur.

Pennwyd y blaenoriaethau hyn yn y ddogfen *Antur. Am y tro cyntaf ac am oes.* — ein strategaeth 10-mlynedd ar gyfer YHA a gyhoeddwyd yn 2020. Maent yn wir o hyd ar draws ein holl feysydd gweithredu, gan gynnwys yng Nghymru.

Ar y tudalennau nesaf, rydym yn amlinellu sut y bydd y rhain yn cael eu rhoi ar waith yng Nghymru trwy gyfres o addewidion. Rydym yn nodi enghreifftiau o ble bydd angen i'n dulliau yng Nghymru fod yn wahanol i'n dulliau yn Lloegr. Ac rydym yn ailddatgan sut y bydd ein gwaith yng Nghymru yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n targedau.

# Ein haddewidion

**1** **Rydym yn addo cryfhau rôl ein hosteli a'r YHA wrth ddathlu treftadaeth naturiol a diwylliannol Cymru.**

Byddwn yn cysylltu'n well â chymunedau lleol yn lleoliadau ein hosteli ac yn yr ardaloedd cyfagos. Bydd hyn yn gwella arosiadau i gwsmeriaid ac yn cysylltu grwpiau lleol â chyfleoedd i ddefnyddio ein lleoedd a'n gofodau.

Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gefnogi dathliadau a digwyddiadau diwylliannol a threftadaeth Cymru.

**2** **Rydym yn addo gwella'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg ledled ein sefydliad.**

Byddwn yn cofrestru gyda menter Cynnig Cymraeg Comisiynydd y Gymraeg. Bydd hyn yn creu cynllun datblygu dros y blynyddoedd nesaf gan bennu amcanion penodol i asesu ein cynnydd o ran gwelliannau wrth ymwneud â chwsmeriaid ac wrth weithredu.

Byddwn yn cynnal arolygiad o'n staff a'r rhwydwaith o wirfoddolwyr i adnabod siaradwyr a dysgwyr Cymraeg er mwyn sefydlu llinell sylfaen.

Byddwn yn sicrhau bod ein deunyddiau recriwtio ar gael yn Gymraeg lle bo'n briodol ac yn gofyn i'r holl ymgeiswyr a ydynt yn siarad neu'n dysgu Cymraeg.

**3** **Rydym yn addo cynorthwyo mwy o bobl ifanc a theuluoedd sy'n byw yng Nghymru i brofi antur.**

Byddwn yn gweithio'n agosach gyda phartneriaid i ennyn diddordeb mwy o bobl ifanc a theuluoedd yn ein rhaglenni a phrosiectau amrywiol – gan gynnwys ein seibiannau a ariennir, ein rhaglenni Campws a pharodrwydd at waith, a theilwra ein cynnig arosiadau preswyl i ysgolion/addysg i gefnogi'r broses o weithredu'r cwricwlwm newydd yng Nghymru.

Byddwn yn defnyddio ein dylanwad i gefnogi rhwydweithiau ehangach yng Nghymru yn well er mwyn creu newid a gwella mynediad i antur, natur a'r awyr agored.

Byddwn yn cyflawni prosiect a luniwyd i gysylltu pobl ifanc â natur – sy'n debyg i'n prosiect 'Generation Green' diweddar – gan weithio mewn partneriaeth â'r Parciau Cenedlaethol a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, a chynghreiriau fel Access Unlimited.

Byddwn yn gweithio i wreiddio ein rhaglenni ym mholisïau Cymru a thyfu ein cylch o bartneriaid atgyfeirio.

Byddwn yn datblygu'r rhaglen Dinasyddion Awyr Agored er mwyn gwella mynediad i'r awyr agored yng Nghymru.

Byddwn yn datblygu ein perthynas â chymdeithas sifil a chyrff sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn mapio ein heffaith yn erbyn agenda ehangach Cymru a'r dirwedd polisi. Mae hyn yn golygu adrodd yn erbyn deddfwriaeth a pholisïau allweddol fel Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**4** **Rydym yn addo sicrhau bod gennym y cyfuniad iawn o hosteli yn y lleoedd iawn yng Nghymru, sy'n cynnig arosiadau o ansawdd da.**

Byddwn yn ystyried ein holl lifoedd incwm posibl ac yn sicrhau bod gennym y cyfuniad gorau ar gyfer elusen fodern a menter gymdeithasol fawr.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithio gyda chymunedau a phartneriaid i ddatblygu'r model gweithredu iawn ar gyfer ein safleoedd yng Nghymru, gan gryfhau cysylltiadau lleol a galluogi cynaliadwyedd yn y tymor hirach.

Byddwn yn edrych yn ofalus ar sut orau i ddefnyddio hostel YHA Yr Wyddfa Bryn Gwynant o gofio ei phwysigrwydd yng ngogledd Cymru.

Byddwn yn edrych ar ailsefydlu hostel yng Nghaerdydd ar y cyfle cyntaf addas.

**5** **Rydym yn addo sicrhau bod ein rhaglenni a'n gweithrediadau ledled y sefydliad yn ystyried cyd-destun penodol Cymru.**

Byddwn yn recriwtio o leiaf un cynrychiolydd o Gymru i'n Bwrdd Ymddiriedolwyr.

Byddwn yn sicrhau bod aelodaeth ein Tîm Cynghori Ieuenctid yn cynnwys o leiaf dau berson ifanc o Gymru erbyn 2023. Byddwn yn cynnwys hyn yng nghylch gorchwyl y Tîm Cynghori Ieuenctid.

Bydd Cymru yn eitem benodol ar agendâu y grwpiau prosiect a'r grwpiau llywio.

Bydd ein mentrau ymgysylltu cymunedol – fel Gŵyl Gerdded YHA a chymuned arfer Dinasyddion Awyr Agored – yn cael eu hystyried gyda Chymru mewn golwg.

Byddwn yn diweddaru ein safonau brand i gynnwys canllawiau ar gyflwyno hunaniaeth Cymru a'r iaith Gymraeg i'n gofodau a'n cyfathrebiadau.

Byddwn yn dwyn ynghyd arbenigedd ar draws ein timau gweithredol yng Nghymru er mwyn cefnogi gwaith y tîm effaith strategol.

# Cyflawni ein haddewidion

Bydd yr amcanion a amlinellir yn y ddogfen hon yn cynnig fframwaith i'n gwaith i wella ein rhaglenni yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf.

Rydym yn cydnabod mai proses yw hon ac yn bur anaml y bydd pethau'n aros yr un peth.

Byddwn yn adolygu ein hamcanion er mwyn gwneud yn siŵr bod yr hyn a wnawn yn dal i fod yn berthnasol ac yn ychwanegu gwerth at y tirweddau ehangach a'n prosesau sefydliadol ni.

Fel rhan o'r drafodaeth, mynegodd 90 o bobl ddiddordeb mewn bod yn rhan o grŵp i'n helpu ni i wneud cynnydd gyda'n gwaith yng Nghymru. Byddwn yn edrych ar sut orau i sicrhau y cawn ein llywio gan gyngor ac arbenigedd pobl eraill.

Byddwn yn sicrhau bod llais ieuenctid yn cael ei glywed a'i ystyried trwy ein Tîm Cynghori Ieuenctid ac rydym wedi ymrwymo i glywed gan grwpiau llais ieuenctid eraill yng Nghymru.

Byddwn yn adrodd ar ein cynnydd yn onest ac yn dryloyw. Bydd hyn yn cynnwys mesur sut yr ydym yn gwneud yn erbyn set o ddangosyddion perfformiad allweddol.

Bydd yr amcanion penodol i Gymru a nodir yn y ddogfen hon yn rhan o'n cylch cynllunio busnes blynyddol a darperir adnoddau ar eu cyfer trwy benodi rheolwr prosiect, cyfarwyddwr rhaglen a thîm rheoli gyda chyfrifoldeb i gyflawni yn erbyn yr amcanion a bennir yn y strategaeth hon.

# Trip ysgol i Fannau Brycheiniog

Aeth plant Blwyddyn 2 o Ysgol Y Berllan Deg (ysgol gynradd Gymraeg yng Nghaerdydd) ar drip undydd i YHA Danywenallt Bannau Brycheiniog yn ystod gwanwyn 2022. Esboniodd eu hathrawes, Mrs Amy Bull, sut roedd y trip yn cefnogi dysgu'r plant:

“

**Mae ein hysgol yn gweithio mewn clwstwr o ysgolion (Clwstwr Bro Edern) i wneud yn siŵr bod y themâu, a grëwyd fel rhan o'r cwricwlwm newydd i ysgolion cynradd, wedi'u teilwra i anghenion y plant ar draws yr ysgolion yn y clwstwr. Yn ddiweddar, 'Bywyd yng Nghefn Gwlad' oedd y thema, ac mae'r plant wedi bod yn dysgu am Barciau Cenedlaethol Cymru.**

**Daethom o hyd i ganolfan Danywenallt drwy ddefnyddio DataMapCymru. Fe ddysgon ni am symbolau mapio, y cod cefn gwlad, a phlotio sawl llwybr o Dal-y-bont i'r hostel yn Danywenallt. Gan ddefnyddio ein Chromebooks, creodd y plant eu taflenni ticio helfa drysor eu hunain. Cefais sawl sgwrs gyda'r tîm yn yr hostel, a oedd yn gymwynasgar dros ben, a gyda'n gilydd, fe ddewison ni'r llwybr cerdded mwyaf addas.**

**Dysgodd y plant gymaint wrth baratoi ar gyfer ein trip ac roeddent yn gallu defnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn antur gyffrous, bywyd go iawn. Mae'r wlad o amgylch yr hostel yn hardd iawn ac mae yna lawer o botensial ar gyfer gweithgareddau awyr agored ystyrlon ac ysbrydolgar. Rydyn ni'n edrych ymlaen at ein hymweliad nesaf!**

”



# Gweithio gydag elusen digartrefedd ieuenctid Llamau

Arhosodd grŵp o bobl ifanc o elusen Llamau gyda'r YHA fel rhan o'n Rhaglen Seibiannau ym mis Medi 2022. Esboniodd eu pennaeth dysgu, hyfforddiant a chyflogaeth effaith yr arhosiad, ar y bobl ifanc ac ar y sefydliad ei hun:

**"Roedd yr arhosiad a ariannwyd gan YHA yn un a newidiodd fywydau'r bobl ifanc yn wirioneddol. Roedd hefyd yn rymusol ac yn ysgogi meddyliau ymysg y cydweithwyr a bydd yn gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda phobl ifanc. Mae Llamau yn awyddus i adeiladu ar y bartneriaeth â'r YHA."**

# Cerddor ifanc yn teithio o amgylch hosteli Cymru

Perfformiodd Ash Bates, cerddor gwerin ifanc sydd wedi'i ysbrydoli gan Joni Mitchell, Nick Drake a Leonard Cohen ymysg eraill, yn 10 o hosteli'r YHA yng Nghymru yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst 2022, gan ddechrau yn YHA Tyddewi yn Sir Benfro a gorffen yn YHA Danywenallt Bannau Brycheiniog.

Gofynnon ni i Ash rannu ei feddyliau am y profiad:

**"Roeddwn i wrth fy modd. Mae YHA yn gymuned hardd â chysylltiadau da. Drwy aros gyda YHA, rydych chi'n cwrdd â thîm cyfeillgar a theimlo'n rhan o dŷ gyda phobl ddiddorol a lliwgar yn mynd a dod trwy'r amser.**

**Chewch chi ddim byd ond caredigrwydd yn y lleoedd hyn. Pobl sy'n barod i rannu stori, lle da i gerdded gerllaw neu eu bwyd, hyd yn oed.**

**Roedd croeso cynnes wrth imi gyrraedd bob tro. Alla' i ddim ond argymell hostela i unrhyw un sydd heb roi cynnig arno yng Nghymru. Mae'n anhygoel o hardd a'r ffordd rataf ac efallai gorau i gael y mwyaf allan o le. Maen nhw'n eich annog chi i fod yn weithgar a mwynhau'r harddwch o'ch cwmpas.**

**Fydda' i byth yn anghofio'r profiad hwn gyda chi a byddwn yn dychwelyd atoch fory nesaf."**



Rydyn ni'n gobeithio cynnal llawer mwy o berfformiadau byw ar draws y rhwydwaith, gan gynnig cyfleoedd ar gyfer ysbrydoliaeth greadigol a mwy o ddigwyddiadau y gellir eu mwynhau gan gynulleidfaoedd, gan gynnwys y gymuned leol a'n gwesteion.


Berwick
Wooler
Alnwick
Newcastle Central
The Sill at Hadrian's Wall
Edmundbyers
Alston
Ninebanks
Skiddaw
Keswick
Hawse End
Borrowdale
Dufton
Langdon Beck
Buttermere
Helvellyn
Ennerdale
Patterdale
Grasmere
Black Sail
Langdale
Honister Hause
Ambleside
Windermere
Wasdale Hall
Eskdale
Coniston Coppermines
Coniston Holly How
Hawkshead
Hawes
Grinton Lodge
Ingleton
Kettlewell
Malham
Slaidburn
Whitby
Boggle Hole
Osmotherley
Dalby Forest
Scarborough
Helmsley
York
Beverley Friary
Haworth
Mankinholes
Liverpool Central
Liverpool Albert Dock
Manchester
Castleton Losehill Hall
Edale
Hathersage
Ravenstor
Eyam
Sheen
Sherwood Forest
Youlgreave
Hartington Hall
Alstonefield
Ilam Hall
Conwy
Rowen
Bwthyn Idwal
Yr Wyddfa Llanberis
Yr Wyddfa Rhodiwr
Yr Wyddfa Bryn Gwynant
Yr Wyddfa Pen-y-Pas
Chester Trafford Hall
Wells-next-the-Sea
Hunstanton
Sheringham
Hostel y Brenin
Ironbridge Coalbrookdale
All Stretton
National Forest
Ironbridge Coalport
Thurlby
Bridges
Wilderhope Manor
Borth
Clun Mill
Leominster
Kington
Cambridge
Blaxhall
Stratford-upon-Avon
Traeth Poppit
Pwll Deri
Trefdraeth
Tyddewi
Llanddeusant
Llangatwg
Bannau Brycheiniog
Aberllydan
Bannau Brycheiniog Danywenallt
Wye Valley
Maenorbŷr
St Briavels Castle
Cotswolds
London Central
London Lee Valley
Oxford St
St Pancras
Thameside
Gŵyr
Porth Eynon
Streatley
Jordans
Earl's Court
St Paul's
Bristol
Medway
Canterbury
Bath
Cheddar
Tanners Hatch
Holmbury St Mary
Minehead
Cholderton
Exford
Street
Elmscott
Truleigh Hill
Littlehampton
Okehampton Bracken Tor
Boscastle
New Forest
South Downs
Brighton
Lulworth Cove
Totland
Beer
Tintagel
Okehampton
Litton Cheney
Swanage
Eastbourne
Dartmoor
Treyarnon Bay
Perranporth
Portreath
Boswinger
Penzance
Land's End
Coverack
Lizard

# Diolch am ymgysylltu â'r strategaeth i'r YHA yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf.

# Rydych chi wedi darllen ein haddewidion ni. Beth fyddwch chi'n addo?

Ni yw YHA.

Rydym yn trawsnewid bywydau ifanc am byth trwy deithio ac antur go iawn.

**Oherwydd mae ble yr ewch chi yn newid pwy fyddwch chi**

aros | ymuno | rhoi | gwirfoddoli     yha.org.uk

YHA (England & Wales), Trevelyan House, Dimple Road, Matlock, Derbyshire DE4 3YH
Rhif y cwmni 282555     Rhif elusen gofrestredig 306122